



Ein cyf: MA/JJ/5755/19

At:

Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Anfonir copi at:

Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol  
yng Nghymru

Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

16 Rhagfyr 2019

Annwyl Gydweithwyr

Mewn Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, rwy'n cyhoeddi heddiw fanylion Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol Dros Dro 2020-21 ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru. Mae'r datganiad hwnnw ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Drwy'r cyhoeddiad hwn, rwyf yn amlinellu fy mwriad i bennu cyllid refeniw craidd llywodraeth leol ar gyfer 2020-21 yn £4.474 biliwn. Rwy'n falch bod hyn yn golygu, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, y bydd cynnydd o 4.3 y cant yn y cyllid craidd cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol, ar sail tebyg at ei debyg, yn 2020-21 o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol.

Bu cyllid ysgolion yn ystyriaeth bwysig yn ein trafodaethau ynghylch y gyllideb eleni. Yn y setliad hwn, rydym wedi darparu cyllid ar gyfer costau ychwanegol sy'n codi o'r newidiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU i gyfraniadau pensiwn cyflogwyr. Rydym hefyd wedi darparu cyllid ar gyfer costau ychwanegol sy'n codi o gytundeb tâl athrawon 2019/20 am weddill y flwyddyn academaidd, ac rydym wedi darparu cyllid y tu hwnt i hynny i gydnabod effeithiau dyfarniadau tâl athrawon yn y dyfodol sy'n dod i rym o fis Medi 2020. Rydym hefyd yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer ein cynigion o ran meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim, gan fod Llywodraeth y DU yn parhau i gyflwyno Credyd Cynhwysol.

Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r posibilrwydd o gynnwys cyllid gwaelodol ar gyfer y setliad hwn. Gan y bydd pob awdurdod yn gweld cynnydd o 3% o gymharu â 2019-20 ar sail tebyg at ei debyg, rwyf wedi dod i'r casgliad nad oes angen cyllid gwaelodol yn yr achos penodol hwn. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i ailosod sylfaen y setliad a chyllido awdurdodau yn ôl angen cymharol, yn hytrach na gwneud yn iawn am weithredu cyllid gwaelodol hanesyddol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Julie.James@lyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@lyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y cyllid cyfalaf cyffredinol heb ei neilltuo ar gyfer 2020-21 fydd £198 miliwn (gan gynnwys £20 miliwn ar gyfer grant ailwampio priffyrdd cyhoeddus) – sef cynnydd o £15 miliwn o gymharu â'r hyn a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Derfynol y llynedd. Rwy'n gobeithio y bydd y cyllid ychwanegol hwn yn eich galluogi i ymateb i'r angen i ddatgarboneiddio ar frys, yn sgil yr argyfwng hinsawdd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a nifer o gynghorau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Fel y trafodwyd eisoes, rydym oll yn cydnabod bod angen buddsoddi yn y cyflenwad tai. Dylai buddsoddi mewn tai cymdeithasol leihau'r pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol ac ar wasanaethau digartrefedd. Gall buddsoddi mewn tai fod o gymorth hefyd i economi Cymru ac economïau lleol. Rwy'n gobeithio y gall y setliad hwn eich cynorthwyo chi i adeiladu rhagor o dai yn fwy cyflym ledled Cymru.

Mae'r *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol* drafft a'r tablau cysylltiedig sy'n cynnwys manylion y setliad dros dro yn ôl awdurdod lleol hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r tablau hyn yn cynnwys y dyraniadau Cyllid Allanol Cyfun fesul awdurdod, sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw a'r Ardrethi Annomestig wedi'u hail-ddosbarthu. Fel rydym wedi trafod drwy'r Is-grŵp Cyllid, rydym hefyd yn darparu gwybodaeth ynghylch y grantiau refeniw a chyfalaf a gynllunnir ar gyfer 2020-21. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei diweddarau ymhellach ar gyfer y setliad terfynol.

Mae'r oedi o ran cyhoeddi'r setliad dros dro wedi ein galluogi i dynnu ar ffigurau diweddaraf y sylfaen drethu ar gyfer 2020-21, sy'n golygu na ddylai fod unrhyw newid rhwng y setliadau dros dro a'r setliadau terfynol o ganlyniad i ddiweddarau'r sylfaen drethu.

Mae'r setliad hwn yn darparu'r sylfaen mwyaf sefydlog y gallaf ei chynnig ichi i gynllunio eich cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Rwy'n ymwybodol iawn o'r pwysau a wynebir gan lywodraeth leol, ac rwy'n ymrwymedig i warchod llywodraeth leol rhag effeithiau gwaethaf cyni. Mae hwn yn setliad da a ddylai liniaru rhywfaint ar y pwysau a ragwelwyd gennych, ac mae'n cynnig cyfle i lywodraeth leol gynllunio at y dyfodol. Er nad wyf yn gallu gwarantu na fydd unrhyw newidiadau rhwng y setliadau dros dro a'r setliadau terfynol oherwydd yr ansicrwydd ariannol a ddaw yn sgil Llywodraeth newydd, gallaf roi sicrwydd ichi nad wyf yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r fethodoleg na'r data sy'n sail i ddosbarthu'r setliad hwn.

Mae fy nghyhoeddiad heddiw yn nodi lansio cyfnod ymgynghori ffurfiol 7 wythnos ar y setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2020-21. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech sicrhau bod eich ymateb yn cyrraedd erbyn **dydd Llun, 3 Chwefror 2020**. Dylid anfon pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn at:

Simon Edwards

Yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau Gweithlu  
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Neu anfonwch e-bost at: [LGFPSettlement@llyw.cymru](mailto:LGFPSettlement@llyw.cymru).

Gwahoddir sylwadau am yr effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol) y byddai'r setliad arfaethedig yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gwahoddir sylwadau hefyd o ran p'un a ellid ailwampio neu ddiwygio'r setliad arfaethedig i gael effeithiau cadarnhaol, neu i leihau'r effeithiau niweidiol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, yn ogystal â pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb.

Gall copïâu o ymatebion gael eu rhoi yn llyfrgell Llywodraeth Cymru. Os ydych yn dymuno i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, dylech nodi hyn yn glir yn eich ymateb. Bydd hyn yn cael ei ystyried gan gydnabod ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb a dderbynnir erbyn y dyddiad cyflwyno cyn gwneud y penderfyniad terfynol a'i gyhoeddi.

Caiff awdurdodau lleol eu hatgoffa o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd lle y bônt yn berthnasol. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Rhaid i awdurdodau hefyd ystyried eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau ar gyfer 2020-21.

Mae'r setliad dros dro hwn yn rhoi ichi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gynllunio eich cyllidebau ar gyfer 2020-21 ac ystyried sut y bydd orau ichi ymgysylltu â'ch cymunedau lleol i lunio eich cynigion a gwneud eich penderfyniadau cyllidebol.

Yn gywir

**Julie James AC/AM**

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Minister for Housing and Local Government